bus users
bringing people together
dod â phobl ynghyd

Adroddiad Blynyddol Ar Gyfer Cymru 2025/26

www.bususers.org

"Yr unig Gorff Datrys Anghydfodau Amgen cymeradwy ar gyfer y diwydiant bysiau a choetsis"

Amdanom ni

Mae Bus Users UK yn eiriol dros hawliau teithwyr ac yn ymgyrchu dros drafnidiaeth gynhwysol, hygyrch. Mae ein gwaith gyda chymunedau lleol, cyrff trafnidiaeth, a llywodraeth ar bob lefel yn helpu i wella gwasanaethau i bawb.

Y ni yw'r unig Gorff Datrys Anghydfodau Amgen cymeradwy ar gyfer y diwydiant bysiau a choetsis, a'r corff dynodedig ar gyfer trin cwynion dan y Ddeddfwriaeth Hawliau Teithwyr mewn Bysiau a Choetsis. Rydym hefyd yn rhan o'r Gynghrair Trafnidiaeth Gynaliadwy, grŵp sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo buddion teithio cyhoeddus, llesol, a rennir.

Ynghyd â thrin cwynion, mae ein Swyddogion Cydymffurfio Bysiau yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod darparwyr trafnidiaeth yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n llawn a bod cymunedau lleol wrth galon cynllunio a darparu trafnidiaeth ar draws Cymru.

Cewch fwy o wybodaeth am ein gwaith a derbyn ein newyddion diweddaraf yn **www.bususers.org**

Mae'r holl ffigyrau mewn cromfachau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at 2024/25

Penawdau

	2025/26	2024/25
Cwynion	164	144
Materion a godwyd	298	262
Cwynion ynghylch dibynadwyedd gwasanaethau	7%	12%
Cwynion ynghylch agwedd gyrwyr/staff	27%	25%
Achosion a gyfeiriwyd at BAB	0	0
Digwyddiadau	14	19
Materion a godwyd mewn digwyddiadau	172	221
Pobl yn y digwyddiadau "Dewch i Drafod Bysiau"	147	186
Rhanddeiliaid y cyfarfuwyd â nhw	83	78
Gweithredwyr a fonitrwyd gan SCB	21	24
Ardaloedd a fonitrwyd ar gyfer grantiau GCGB	3	3
Ardaloedd a fonitrwyd am brydlondeb/dibynadwyedd	116	83
Gwasanaethau a fonitrwyd	314	272
Oriau monitro min ffordd	2,457	2,479
Dim gweithredu pellach gan y Comisiwn Traffig	5	8
Ymholiadau Cyhoeddus ar Weithredwyr	0	0

Cwynion

Yn 2025/26, datrysom 164 o gwynion ar ran teithwyr bysiau yng Nghymru

Mae Bus Users UK yn gorff Datrys Anghydfodau Amgen (ADR) cymeradwy ar gyfer y diwydiant bysiau a choetsis. Os bydd teithiwr yn codi cwyn gyda gweithredwr ac mae'n anfodlon ar yr ymateb, rydyn ni'n gweithredu ar ei ran. Yn 2025/26, derbyniodd Bus Users yng Nghymru 164 (144) o gwynion yn cwmpasu 300 o faterion, a chodwyd 172 (221) o faterion ychwanegol yn ein digwyddiadau "Dewch i Drafod Bysiau".

"Os bydd teithiwr yn codi cwyn gyda gweithredwr ac mae'n anfodlon ar yr ymateb, rydyn ni'n gweithredu ar ei ran"

Cwynion fesul categori	2025/26					2024/25
	Cw 1	Cw 2	Cw 3	Cw 4	Cyfanswm	Cyfanswm
Bws heb stopio neu droi fyny	17	12	13	18	60	63
Agwedd gyrwyr a staff	16	27	20	13	76	66
Dibynadwyedd gwasanaethau	9	6	5	2	22	32
Tocynnu	16	6	23	20	65	51
Gwybodaeth	7	3	9	7	26	17
Lefel y gwasanaeth	0	0	0	0	0	1
Arall	3	2	6	2	13	10
Cyflwr cerbydau	5	2	1	1	9	8
Capasiti	1	1	1	0	3	1
Mynediad	5	2	1	1	9	6
Anabledd	1	1	0	1	3	3
Bagiau	0	0	1	0	1	0
Anaf Personol	0	1	2	0	3	2
Ysmygu	0	0	0	0	0	2
Seilwaith	2	3	0	0	5	0
Canmoliaeth	0	0	0	0	0	0
EPRR/AIR	0	3	0	0	3	0
Cyfanswm	**82**	**69**	**82**	**65**	**298**	**262**

Cyfranogiad teithwyr

Yn 2026/26 cynhaliwyd 14 digwyddiad "Dewch i Drafod Bysiau/Mis Dal y Bws" ar draws Cymru.

Dyddiad	Lleoliad	Partneriaid
8.8.25	Casnewydd	Newport Bus, Canolfan Gwlypdiroedd yr RSPB
1.9.25	Brynmawr	Phil Anslow Coaches
2.9.25	Cofentri	Llywodraeth Cymru, TfWM, CPT
9.9.25	Caerdydd	Cyngor Caerdydd
10.9.25	Coleg Crosskeys	Stagecoach
11.9.25	Coleg y Cymoedd Rhondda	Stagecoach
12.9.25	Llantrisant	Edwards Coaches
17.9.25	Prifysgol Abertawe	First Cymru
19.9.25	Prifysgol Trefforest	Stagecoach
23.9.25	Prifysgol Caerdydd	Stagecoach
24.9.25	Abertawe	Cyngor Abertawe/ Fforwm Anabledd Abertawe
7.10.25	Aberdâr	Stagecoach/Cyngor RhCT
2410.25	Llantrisant	Edwards Coaches
29.10.25	Porth	Stagecoach/Cyngor RhCT

Mae ein digwyddiadau "Dewch i Drafod Bysiau" yn dod â'r bobl sy'n rhedeg gwasanaethau bysiau a'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt at ei gilydd.

Materion a godwyd	2025/26
Lefel y gwasanaeth	82
Dibynadwyedd y gwasanaeth	37
Gwybodaeth a seilwaith	21
Agwedd gyrwyr/staff	17
Mynediad	12
Cyflwr cerbydau	3



Mis Dal Y Bws / Catch the Bus Month

I ddathlu Mis Dal y Bws 2025 cynhaliom gyfres o ddigwyddiadau yn Aberdâr, Brynmawr, Caerdydd, Crosskeys, Llantrisant, Llwynypia, Porth, Abertawe a Threfforest.

Canolbwyntiodd ein deunyddiau ymgyrchu dwyieithog ar fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd bysiau a chafodd ein hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol sylw mawr gan bob rhan o'r diwydiant ac ymhlith grwpiau teithwyr, elusennau ac awdurdodau lleol.

Cawsom gefnogaeth wych i'n hymgyrch unwaith eto gan Sioned Williams AS.

Cyflwynwyd Gwobrau Mis Dal y Bws 2025 i Gyfnewidfa Fysiau Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy mewn partneriaeth â Newport Bus, a'r RNIB.

Ein heffaith

Daeth y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth Hygyrch 2023 hirddisgwyliedig i rym yn swyddogol ar gyfer cerbydau a ddechreuodd wasanaethu yn 2019. Ym mis Hydref 2025 estynnwyd hyn i gerbydau o 2014 ymlaen. Rydym wedi gweithio'n helaeth gyda'r llywodraethau ar y rheoliadau hyn a fydd yn gwella cynhwysiant ac yn cael effaith anferth ar allu pobl ag anableddau i deithio'n ddiogel ac yn hyderus. Ym mis Hydref 2026, bydd cerbydau a gofrestrwyd yn gyntaf ar ôl Ionawr 1973 yn syrthio o fewn cwmpas y Rheoliadau hyn.

Wrth i weithredwyr a darparwyr trafnidiaeth symud at docynnu di-arian ac apiau digidol, rydym wedi parhau i rybuddio rhag allgáu digidol ac ariannol. Mae llawer o bobl yng Nghymru heb fynediad at ddyfais symudol neu gyfrif banc, neu maent yn teithio mewn ardaloedd lle mae cysylltedd gwael. Rydym wedi bod yn galw am docynnu arian cywir, amserlenni printiedig a dewisiadau tocynnu fel na fydd neb yn cael eu rhwystro rhag teithio.

Datrys cwynion

Roedd teithiwr yn teithio gyda babi 6 mis mewn bygi ac wedi prynu eu tocyn teithio ymlaen llaw. Pan stopiodd y bws wrth y safle, roedd y gyrrwr yn anghwrtais ac yn anghymwynasgar, gan honni bod y bws yn rhy llawn iddynt deithio ynddo. Cynigiodd y teithiwr blygu'r bygi, ond wrth iddynt ddechrau gwneud hynny, gyrrodd y bws ymaith hebddynt.

Bu'n rhaid i'r teithiwr dalu am dacsi yn ogystal â dal tocyn bws heb ei ddefnyddio. Pan gwynodd y teithiwr, dywedodd y gweithredwr y byddent yn delio â'r mater gyda'r gyrrwr ond gan wrthod cynnig iawndal.

Er na allwn geisio iawndal i deithwyr, codom y gŵyn gyda'r gweithredwr. Ynghyd â derbyn bod profiad y teithiwr ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, cynigiont ddau docyn teithio diwrnod i'r teithiwr fel arwydd o ewyllys da.

Adborth

"Diolch am eich holl gymorth, roedd y broses mor syml ac rydych chi wedi bod yn wych. Dw i wir yn gwerthfawrogi hyn!"

"Cefais ymateb da yn y diwedd a buont mor garedig â chynnig tocynnau bws am ddim i mi. Diolch am fy helpu i gael ymateb boddhaol gan y cwmni bysiau ar ôl llawer o fynd a dod."

"Diolch am eich cymorth gyda fy nghwyn. Dw i wedi derbyn ad-daliad am elfen ddychwelyd fy nhaith, felly rwy'n fodlon bod y gŵyn wedi'i datrys bellach."

Morgan Stevens, Rheolwr-Gyfarwyddwr Newport Bus: "Rydym yn cefnogi ac yn cymeradwyo gwaith Bus Users Cymru. Credwn yn gadarn bod y cymorth a roddir i gwsmeriaid ac i weithredwyr yn amhrisiadwy gan sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu clywed a'u hystyried".

Cynrychiolaeth

Rydym yn cynrychioli buddiannau teithwyr yng nghyfarfodydd **Grŵp Cyflenwi Rheolaeth Strategol** gwasanaethau TrawsCymru a Fflecsi, gan amlygu materion sy'n effeithio ar deithwyr a rhoi'r ddadl dros wasanaethau gwledig sy'n diwallu anghenion pobl leol.

Rydym wedi parhau i gydweithio gydag wyth grŵp teithio cyhoeddus, llesol ac a rennir arall fel rhan o'r **Gynghrair Trafnidiaeth Gynaliadwy**. Ein nod a rennir yw cefnogi a symbylu'r gwaith o dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau symudedd cynaliadwy, cynhwysol i bawb.

Rydym yn aelod o **Ffederasiwn Teithwyr Ewrop**, sef rhwydwaith o grwpiau sy'n cynrychioli teithwyr ledled Ewrop. Rydym yn mynychu cyfarfodydd, yn ymateb i ymgynghoriadau ac yn rhannu profiadau a sylwadau teithwyr.

Gwella gwasanaethau

Rydym yn gweithio gyda gweithredwyr i wella mynediad at wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â diweddaru a chanslo gwasanaethau. Rydym yn rhannu arferion gorau ac yn annog gweithredwyr i ddefnyddio cymaint o sianeli â phosibl fel y gall teithwyr wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u teithiau.

Mae ein gwaith ar amlygu atalfeydd mewn gwasanaethau yn helpu gweithredwyr i newid amserlenni er mwyn adlewyrchu amserau teithio yn gywir, gan sicrhau bod gwasanaethau'n fwy dibynadwy i deithwyr.

Codi materion

Rydym yn weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol gydag X (Twitter gynt) a Facebook, ac mae gennym gyfrif Instagram ar gyfer Mis Dal y Bws a thudalen LinkedIn Bus Users UK.

Rydym yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfweliadau yn y cyfryngau, ac yn 2025/26 cawsom ein cyfweld ddwywaith ar BBC Radio ac ITV News ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), ac effaith ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd sy'n ymgodi o dorri gwasanaethau bysiau. Amlygom y rhan hanfodol bwysig y mae bysiau'n ei chwarae yn cysylltu cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae gan lai o bobl gar.

Ymunom â phanel yn y Transport Ticketing Global Conference yn Llundain ar fynd i'r afael â heriau tocynnu a phrisiau tocynnau yng nghyfnod masnachfreinio bysiau'r DU; cymerom ran yng Nghynhadledd Ffederasiwn Teithwyr Ewrop yn Swindon i drafod masnachfreinio bysiau; ac yng Nghynhadledd MOVE 25 yn Llundain, buom yn safoni panel ar sut gall gweithredwyr ac awdurdodau hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Roeddem yn bresennol mewn gweithdai i ystyried materion fel trin cwynion, tocynnu a therfynfeydd dan y Rheoliadau Hawliau Teithwyr mewn Bysiau a Choetsis, a chyfarfuom â'r Adran Drafnidiaeth i drafod gorfodi'r Rheoliadau.

MIS DAL Y BWS #MDYB
DEWCH AR Y DAITH

Gweithredu'n lleol

Cynhaliom ddigwyddiadau "Dewch i Drafod Bysiau" wyneb yn wyneb yn Aberdâr a Phorth yn ogystal â'n digwyddiadau Mis Dal y Bws a gynhelir drwy gydol mis Medi. Mae ein digwyddiadau yn uno'r bobl sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau â'r cymunedau sy'n dibynnu arnynt.



Monitro

Mae ein Swyddogion Cydymffurfio Bysiau (SCB) yn cynnal gwaith monitro min ffordd ac yn ymchwilio i gwynion ynghylch prydlondeb. Anfonir eu hadborth yn syth at y gweithredwr fel y gellir gwella'r gwasanaethau a mynd i'r afael â'r problemau. Mewn achosion eithafol, anfonir adroddiadau SCB at y Comisiynydd Traffig sydd â'r gallu i alw gweithredwr o flaen Ymchwiliad Cyhoeddus.

Dyma enghreifftiau o effaith ein gwaith SCB ar wasanaethau:

Yn gyfreithiol, rhaid bod gwybodaeth glywadwy a gweledol ar gael i deithwyr tra bônt yn teithio. Fel rhan o'n gwaith monitro, rydym yn rhoi gwybod i weithredwyr ac awdurdodau lleol pan nad yw'r dechnoleg hon yn weithredol. Mae hyn wedi arwain at welliannau uniongyrchol o ran adrodd am faterion a delio â nhw, gan wella teithiau a hygyrchedd i bobl ar draws y wlad.

Roedd teithwyr yn profi oedi ar eu gwasanaeth bysiau felly aethom ati i archwilio'r materion. Roedd y llwybr dan sylw yn arbennig o hir felly roedd oedi ar y cychwyn yn golygu ei bod yn anodd i'r gyrwyr adennill amser a gollwyd. Deliodd y gweithredwr â'r materion a nodom drwy newid amserlenni ar lwybrau eraill er mwyn darparu ar gyfer newid gyrwyr, a gofyn i'r holl yrwyr gyrraedd eu standiau ychydig funudau'n gynnar er mwyn delio â materion tocynnu posibl neu niferoedd mawr o deithwyr.

Cawsom wybod bod gwasanaeth bysiau yn peidio ag aros yn rheolaidd wrth safle a restrwyd ar ei amserlen, gan greu problemau difrifol i deithwyr. Aeth ein SCB ati i ymchwilio ac, ar ôl cadarnhau nad oedd bysiau'n stopio wrth y safle, cynhaliom gyfres o gyfarfodydd gyda'r gweithredwr a bellach mae'r safle'n cael ei wasanaethu'n gywir.

Derbyniom nifer o gwynion am brydlondeb gan deithwyr ar wasanaeth yng Ngorllewin Cymru. Monitrodd ein SCB y gwasanaeth a chodi'r materion gyda'r gweithredwr a'r awdurdod lleol oedd yn ei gontractio. O ganlyniad, gwnaed newidiadau i'r amserlen ac mae'r gwasanaeth yn rhedeg ar amser bellach.

Monitrodd ein SCB wasanaeth bysiau ysbyty ar ôl i ni dderbyn nifer o gwynion am nad oedd y gwasanaeth yn rhedeg. Ar ôl cadarnhau eu cwynion, nodom batrwm o wasanaeth gwael a drafodom gyda'r gweithredwr. Cynhaliodd y gweithredwr ymchwiliad mewnol a gwneud addasiadau i'r amserlen. Nid ydym wedi derbyn rhagor o gwynion gan deithwyr.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Parhaom i gydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector drwy gydol 2025/26 i wella gwasanaethau, adeiladu partneriaethau a chryfhau cynrychiolaeth teithwyr.

Bysiau Arriva Cymru	NAT
ATCO/CSS	National Express
BBC	Newport Transport
Bus Centre of Excellence	Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru
Bws Caerdydd	O Ddrws I Ddrws
Cardiff People First	Y Comisiynydd Pobl Hŷn
CaBAC	Phil Anslow Coaches
Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well	Richards Bros
CIHT	RNIB
Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd	RTIG
CILT	Grŵp Trafnidiaeth Trawsbleidiol y Senedd
CPT Cymru	Stagecoach yn Ne Cymru
CTA Cymru	Sustrans
CTSI	Gweithgor Bysiau De Ddwyrain Cymru
DfT	South Wales Transport
Anabledd Cymru	Fforwm Trafnidiaeth Abertawe
DVSA	Stagecoach yn Ne Cymru
EHRC	Tanat Valley Coaches
Euro Bus Expo	Yr Ombwdsmon Trenau
Ffederasiwn Teithwyr Ewrop	Y Comisiynydd Traffig
First Cymru	Trafnidiaeth Cymru
Flixbus	Transport for West Midlands
Cŵn Tywys	Transform Cymru
GWR	TrawsCymru
ITS (IUK)	Traveline Cymru
Llew Jones Coaches	Transport Focus
Lloyds Coaches	Gwobrau Bysiau'r DU
18 Awdurdod Lleol	Uno'r Undeb
M&H Coaches	Llywodraeth Cymru
Mid Wales Travel	Porth y Gorllewin
5 Aelod o'r Senedd	
2 Aelod Seneddol	

bus users
bringing people together
dod â phobl ynghyd

Cefnogwch ein gwaith

Ariennir gwaith Bus Users gan weithredwyr, gan y llywodraethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a thrwy roddion gwirfoddol.

Fel elusen gofrestredig, defnyddir yr holl gyllid a dderbyniwn i gyflawni ein cenhadaeth ac i helpu i gadw pobl a chymunedau'n gydgysylltiedig.

I gefnogi'r gwaith hanfodol hwn, cysylltwch â ni drwy'r manylion isod neu ewch i'n gwefan i gael gwybod sut gallwch wneud rhodd.

Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn ein cylchlythyr electronig am ddim yn **www.bususers.org**

Get in touch

0300 111 0001

enquiries@bususers.org

www.bususers.org

www.x.com/BusUsersUK

www.facebook.com/BusUsersUK

Head Office
22 Greencoat Place, London SW1P 1PR

Bus Users UK is a registered charity (1178677 and SC049144) and a Company Limited by Guarantee (04635458).